

LLINELL GYMORTH Y THEATR - CWESTIYNAU CYFFREDIN



Pwy gaiff gysylltu â Llinell Gymorth y Theatr?

Caiff y [llinell gymorth](http://llinell.gymorth.org) ei defnyddio gan unrhyw un sy'n gweithio yn y diwydiant theatr. Fe allwch chi fod yn gyflogedig, yn hunangyflogedig, yn fyfyrwr neu'n wirfoddolwr, er enghraifft. Does dim gwahaniaeth beth yw eich swydd. Does dim angen i chi fod yn aelod o UK Theatre, SOLT nac unrhyw gorff neu gymdeithas aelodaeth arall i ddefnyddio Llinell Gymorth y Theatr.

Pa bryd mae'r Llinell Gymorth ar agor?

Mae'r llinell gymorth ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, drwy gydol y flwyddyn.

Ydy galwad i'r Llinell Gymorth yn rhad ac am ddim?

Ydy, mae galwad i'r llinell gymorth yn rhad ac am ddim o linell dir a ffôn symudol.

Pwy sydd ar ben arall y ffôn?

Mae UK Theatre a SOLT wedi comisiynu Connect Assist i ddarparu'r llinell gymorth. Mae Connect Assist wedi'i leoli yng Nghymru ac yn darparu llinell gymorth i nifer o elusennau'r DU, gan gynnwys Cymorth Ffilm a Theledu a Chymorth i Gerddorion.

Mae'r bobl ar ben arall y ffôn yn broffesiynol, yn gyfeillgar, yn hawdd sgwrsio â nhw ac yn wybodus. Os na allan nhw eich helpu chi, fe fyddan nhw'n eich cyfeirio ymlaen at unigolyn neu ffynhonnell a all fod o gymorth.

Sut mae Llinell Gymorth y Theatr yn cael ei hariannu?

Mae Llinell Gymorth y Theatr yn cael ei hariannu gan Ymddiriedolaeth Datblygu'r Theatr.

Am ba fath o beth alla' i gysylltu â'r llinell gymorth?

Mae'n llinell gymorth sy'n cynnig i unrhyw un sy'n gweithio yn niwydiant y theatr neu'r celfyddydau perfformio, adnodd i'w helpu i ddelio ag unrhyw faterion sy'n effeithio ar eu hiechyd a'u lles. Gall yr unigolyn ar ochr arall y ffôn gynnig cyngor, arweiniad a chyfeirio.

Er enghraifft, fe allech chi fod yn ffonio am eich bod yn mynd drwy brofedigaeth ac eisiau gwybod lle y gallech chi gael cymorth emosiynol, neu am fod gennych chi broblem cyflogaeth a ddim yn gwybod lle orau i droi i gael help i ddatrys y mater.

Ydy fy ngalwad yn gyfrinachol? Oes raid i mi roi fy enw neu fanylion personol i eraill?

Mae eich galwad yn gyfrinachol. Fe gewch chi roi faint bynnag o fanylion ag yr ydych yn gyfforddus i'w rhoi.

Bydd yr unigolyn ar y llinell gymorth yn gofyn i chi am fanylion sylfaenol, fel yr ardal lle yr ydych,

neu'r math o swydd sydd gennych yn y diwydiant theatr. Fe fyddan nhw'n bwydo data dienw yn ôl, fel y mathau o broblemau y mae pobl yn ffonio yn eu cylch, i helpu UK Theatre a SOLT i wella'r gwasanaeth yn barhaus a deall beth allai fod angen ei ddatblygu yn y dyfodol.

Caiff pob galwad ei recordio at ddibenion ansawdd a hyfforddi staff. Caiff pob galwad ei dileu ar ôl 3 mis.

Rydw i'n fyddar / ni allaf glywed yn dda ar y ffôn / mae gen i nam ar fy lleferydd - oes yna ffyrdd eraill i mi allu cysylltu â Llinell Gymorth y Theatr?

Oes, fe allwch chi anfon e-bost at y llinell gymorth yn y cyfeiriad e-bost hwn:

advice@theatrehelpline.org

Mae gen i rywfaint o adborth ar fy mhrofiad ar y llinell gymorth, i bwy alla' i ei roi?

Rydyn ni'n croesawu adborth ar eich profiad o ddefnyddio'r llinell gymorth. Fe allwch chi roi adborth i ni drwy anfon e-bost at UK Theatre a SOLT yn enquiries@soltukt.co.uk neu dîm Connect Assist yn theatrehelpline@ourcrmservice.co.uk. Rhannwch adborth ar y gwasanaeth ei hun yn unig, os gwelwch yn dda.